

UNIVERSITY OF SOUTH WALES
PRIFYSGOL DE CYMRU

Gwasanaethau Myfyrwyr

Cydlynnydd Bywyd Campws – Lleoliad 10 mis

Cytundeb Trwydded Deiliadaeth

Swydd wag fewnol

Fel rhan o ddatblygiad newydd cyffrous, mae Prifysgol De Cymru yn bwriadu recriwtio saith Cydlynnydd Bywyd Campws fel Lleoliadau Myfyrwyr i weithio ar y cyd gyda thimoedd Gwasanaethau Myfyrwyr a Gwasanaethau Llety. Lleolir un ar Gampws Caerdydd, un ar Gampws Casnewydd a phump ar Gampws Trefforest.

Bydd y Cydlynwyr Bywyd Campws yn hanfodol wrth greu synnwyr o gymuned yn y neuaddau a hyrwyddo profiad myfyriwr positif, trefnu digwyddiadau, hybu gwasanaethau cynnal a chyfeirio pobl atynt, gan gynnig cyfleoedd am ymyrraeth cynnar i leddfu tensiwn rhwng preswylwyr. Bydd Cydlynwyr Bywyd Campws (CBCau) hefyd yn gweithio ar y cyd gyda staff wrth ymateb i adroddiadau o gamymddwyn o dan y rheoliadau.

Nid yw CBCau yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol, ond bydd disgwyl iddynt arwyddo cytundeb trwydded deiliadaeth (*licence to occupancy*), a fydd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n ynghlwm wrth eu rôl. Bydd CBCau yn preswyllo'n gyson yn y Neuaddau yn ystod y tymor a byddant ar gael am amserlenni penwythnos a gwyliau rhwng y 3ydd o Fedi a'r 30ain o Fehefin 2019. Mae'r swydd yn cynnwys cydlynu efo CLCau ar draws tri champws y Brifysgol yn ogystal â rhannu amserlen penwythnos.

Bydd y Cydlynnydd Bywyd Campws yn gweithredu ar bob achlysur o dan Fframwaith Cyfrinachedd sefydlog Adran Gwasanaethau Myfyrwyr, ac yn cynnal gonestrwydd a chywirdeb proffesiynol y gwasanaeth.

Sut i wneud cais: Gwneir cais drwy CV a dogfen ychwanegol yn **trafod pob pwynt yn benodol** yn y Fanyleb Person am y swydd y ceisir amdani.

DYDDIAD CAU: 20 Gorffennaf 2018

DYDDIAD CYFWELD: 30 Gorffennaf – 7 Awst 2018

(rhaid bod yr ymgeiswyr a roir ar y rhestr fer ar gael i'w cyfweld yn ystod yr amser hwn)

DISGRIFIAD SWYDD

<p>Teitl: Cydlunydd Bywyd Campws</p>
<p>Math o Gytundeb: Lleoliad Myfyriwr</p>
<p>Yn atebol i: Reolwr y Gwasanaeth Lles</p>
<p>Yn gyfrifol am: NA</p>
<p>Prif Bwrpas y Swydd: Creu synnwyr o gymuned yn y neuaddau a hyrwyddo profiad myfyriwr positif, trefnu digwyddiadau, hybu gwasanaethau cynnal a chyfeirio pobl atynt, gan gynnig cyfleoedd am ymyrraeth cynnar i leddfu tensiwn rhwng preswylwyr. Gweithio ar y cyd gyda staff wrth ymateb i adroddiadau o gamymddwyn o dan y rheoliadau.</p>
<p>Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymryd rhan mewn gweithgareddau (Pen)Wythnos Groeso y myfyrwyr gan gynnwys cyflwyno Anwythiad i'r Neuaddau • Cydweithio â staff eraill PDC i hybu profiad myfyriwr positif i bawb • Bod yn flaengar wrth greu synnwyr o gymuned yn y Neuaddau • Cyfeirio myfyrwyr at ystod o wasanaethau cynnal, gan gynnwys y rhai gydag anawsterau iechyd meddwl • Cynorthwyo mewn gweithgareddau hysbysu cymorth a gwasanaethau lle bo hynny'n addas • Cymryd rhan mewn cyfleoedd Anwytho a Hyfforddiant ac ymgyfarwyddo gyda phrosesau a chyfundrefnau gweithio o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr a Gwasanaethau Llety (Cynnig PDC/Preifat) • Cofnodi digwyddiadau a chyfathrebu gyda myfyrwyr gan ddefnyddio system Adrodd ar Ddigwyddiadau y Brifysgol • Cynnig man cyswllt cyntaf ac ymyrraeth gynnar pan fo tensiynau yn codi ynghylch llety • Gweithio'n agos gyda thimoedd Gwasanaethau Lles wrth gynnal ymateb PDC i doriadau posibl o gytundeb neu gamymddwyn gan fyfyrwyr • Mynychu cyfarfodydd tîm/gwasanaeth fel y bo'r galw • Bod ar leoliad 6-11 pm Llun-Sul am y chwech wythnos gyntaf o'r flwyddyn academiaidd newydd • Bod ar leoliad 6-11 pm Llun-lau a 6-11 pm Gwener-Sadwrn ar sail amserlen gylchol, ar ôl chwech wythnos gyntaf y flwyddyn academiaidd newydd.

MANYLEB PERSON

SGILIAU A MEDRAU	
Angenrheidiol	Dymunol
<p>(a) Tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu ardderchog</p> <p>(b) Tystiolaeth o sgiliau gwranddo ardderchog</p> <p>(c) Profiad o weithio o dan bwysau</p> <p>(d) Tystiolaeth o sgiliau TG ardderchog</p> <p>(e) Meddu ar y gwydnwch meddwl i ddelio â sefyllfaoedd heriol yn ymwneud â myfyrwyr</p> <p>(f) Meddu nodweddion arweinydd tîm</p> <p>(g) Gallu gwyh i gadw at amser</p>	<p>(s) Sgiliau cynghori (<i>counselling</i>) sylfaenol</p>
GWYBODAETH	
Angenrheidiol	Dymunol
<p>(h) Ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu myfyrwyr mewn Addysg Uwch</p> <p>(i) Gwybodaeth o'r problemau a wynebir mewn amgylchedd preswylfa myfyrwyr</p> <p>(j) Gwybodaeth am anawsterau iechyd meddwl</p> <p>(k) Gwybodaeth am wasanaethau cynnal PDC</p>	<p>(t) Gwybodaeth o reoliadau a pholisïau camymddygiad PDC</p> <p>(u) Ymwybyddiaeth o lleddfu gwrthdaro</p> <p>(v) Ymwybyddiaeth o anawsterau corfforol a dysgu</p>
PROFIAD	
Angenrheidiol	Dymunol
<p>(l) Darparu cyflwyniadau</p> <p>(m) Delio gyda sefyllfaoedd sensitif a phroblematig</p> <p>(n) Gweithio mewn tîm</p> <p>(o) Wedi byw mewn amgylchedd cymunedol/preswyl</p>	<p>(w) Profiad o weithio gyda myfyrwyr gyda chefnidiroedd diwylliannol gwahanol, anabledau ac o wahanol ystod oedran</p> <p>(x) Profiad o gynnal myfyrwyr sy'n byw mewn Neuaddau Preswyl</p>
HYFFORDDIANT	
Angenrheidiol	Dymunol
<p>(p) Ymroddiad i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol</p>	<p>(y) ASIST</p> <p>(z) MHFA</p>
GOFYNION ERAILL	
Angenrheidiol	Dymunol
<p>(q) Derbyn lleoliad wedi ei seilio ar y campws lle mae'r ymgeisydd yn astudio</p> <p>(r) Bod yn fyfyrwr PDC llawn amser.</p>	